Mae trothwyon incwm ar hyn o bryd ar gyfer cofrestru. Cyfeiriwch at ein gwefan am fwy o wybodaeth.

A8 Asesu cymhwyster i gofrestru

Dychwelyd i'r ffurflen

Mae Swyddfa'r Trydydd Sector yn gweithio gyda'r prif reolyddion i gytuno ar sut y bydd y trefniadau newydd yn gweithio, a sicrhau bod ganddynt y pwerau y mae eu hangen arnynt ar gyfer y rôl hon.

Elusennau sydd wedi'u heithrio

Yn draddodiadol ni fu angen i rai grwpiau o elusennau gofrestru gyda ni; fe'u gelwir yn 'elusennau sydd wedi'u heithrio'. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhai eglwysi, y Sgowtiaid a'r Geidiau a rhai elusennau'r lluoedd arfog. Fodd bynnag, mae elusennau sydd wedi'u heithrio eisoes yn dod o dan ein hawdurdodaeth, a byddant yn parhau i ddod o dan ein hawdurdodaeth.

Pan ddaw'r rhan berthnasol o Ddeddf Elusennau 2006 i rym, bydd rhaid i rai o'r elusennau hyn gofrestru gyda ni. Cyfeiriwch at ein gwefan am fwy o wybodaeth.

(c) Ydy fy sefydliad wedi'i lywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr?

Mae wedi'i lywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr;

- os yw'n gwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr; neu
- os yw'r ddogfen lywodraethol yn dweud bod y sefydliad wedi'i lywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr.

Os nad yw'r naill neu'r llall yn gymwys, mae penderfynu a yw'r elusen wedi'i llywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr yn dibynnu ar yr atebion i'r cwestiynau canlynol:

- ydy asedau'r sefydliad, megis adeiladau, eiddo ac arian yn y banc, wedi'u lleoli yng Nghymru neu Loegr?
- fydd gweithgareddau'r sefydliad yn mynd rhagddynt yng Nghymru neu Loegr yn bennaf?
- ydy canolfan weinyddol y sefydliad wedi'i lleoli yng Nghymru neu Loegr?
- ydy'r ymddiriedolwyr wedi'u lleoli yng Nghymru neu Loegr?

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys neu beidio i wneud cais, cysylltwch â ni neu ceisiwch gyngor cyfreithiol cyn gwneud cais.

A9 Gweithredu yn yr Alban

Dychwelyd i'r ffurflen

Os ydych wedi cofrestru, neu'n bwriadu cofrestru eich sefydliad yn yr Alban, ac rydych yn llwyddo i'w gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau hefyd, bydd rhaid i chi gydymffurfio â gofynion Swyddfa Rheolydd Elusennau'r Alban (OSCR) yn ogystal â'n gofynion ni. Gall y gofynion hyn fod yn wahanol. Hefyd bydd rhaid i chi gydymffurfio â dwy set o ofynion cyfrifyddu.

Mae'r hyn sy'n elusennol yn ôl y gyfraith yn yr Alban ychydig yn wahanol i gyfraith Cymru a Lloegr. Felly, mae'n bosibl y caiff y sefydliad ei dderbyn i'w gofrestru gan un neu'r llall ond nid y ddau.

Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth gan y Comisiwn Elusennau gydag OSCR. Rydym wedi cytuno i ddweud wrth ein gilydd am achosion pan fydd gwahaniaeth o ran yr hyn a dderbynnir gan un ond nid gan y llall.

A10 Cyllid a chyllido

Dychwelyd i'r ffurflen

(a) Incwm gros C

Am esboniad o incwm gros gweler y nodyn ar adran A8(a).

(c) Dyddiad diwedd y flwyddyn ariannol

Os yw'ch sefydliad wedi gweithredu am fwy na blwyddyn ac mae wedi cynhyrchu cyfrifon blynyddol, nodwch ddyddiad diwedd eich blwyddyn ariannol o'r cyfrifon diweddaraf. Os yw'ch sefydliad yn ei flwyddyn gyntaf o hyd, nodwch ddyddiad disgwyliedig diwedd y flwyddyn ariannol.

(ch)Codi arian

Mater i'r ymddiriedolwyr ei benderfynu yw dulliau codi arian. Fodd bynnag, dylai elusennau cofrestredig fod ar eu gwyliadwriaeth ac yn sensitif i feirniadaeth a barn gyhoeddus. Gall dulliau codi arian sy'n cael eu hanghymeradwyo gael effaith andwyol ar yr elusen a lleihau ffydd y cyhoedd mewn elusennau eraill.

Cyn codi arian, dylai'r ymddiriedolwyr ddatblygu strategaeth. Gall rhai mathau o godi arian fod yn gostus. Dylai'r ymddiriedolwyr fodloni eu hunain y bydd y costau'n cael eu cyfiawnhau gan y swm y bydd yr elusen yn ei godi. Rydym yn cynhyrchu canllaw ar wahân ar godi arian: **Elusennau a Chodi Arian** (**CC20**) a **Chodi Arian trwy Bartneriaethau â Chwmnïau**. Mae'r ddau ar gael ar ein gwefan neu gan y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol.

(d) Ymgynghorwyr codi arian proffesiynol

Mae codwr arian proffesiynol yn unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n rhedeg busnes codi arian er elw, ac eithrio:

- elusen arall neu gwmni cysylltiedig;
- swyddog neu weithiwr cyflogedig mewn elusen neu gwmni cysylltiedig (gweler y diffiniad yn Ch2);
- ymddiriedolwr elusen;
- casglwr elusennol cyhoeddus;
- pobl sy'n gwneud apêl am arian ar deledu neu radio ar ran y sefydliad; neu
- unrhyw gyfranogwr masnachol (gweler **Elusennau a Chodi Arian** (**CC20**) am wybodaeth bellach ar godi arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol).

B Dogfen lywodraethol

Mae'n bwysig iawn bod sefydliad yn dechrau gyda'r math cywir o strwythur a threfniadau llywodraethu. Gweler ein cyhoeddiad **Dewis a Pharatoi Dogfen Lywodraethol** (**CC22**).

Mae'ch dogfen lywodraethol yn nodi'r ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu. Dylai ddisgrifio sut caiff yr ymddiriedolwyr eu penodi a sut mae penderfyniadau dilys yn cael eu gwneud. Rhaid i ymddiriedolwyr gydymffurfio â'r rheolau ynddi bob amser. Dyma'r rheswm pam ei bod hi mor bwysig i'w chael yn gywir.

Os yw'r sefydliad yn gwmni bydd memorandwm ac erthyglau cymdeithasu ganddo. Fel rheol rhaid i'r cwmni gael ei gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau cyn y gallwn ystyried cais i gofrestru fel elusen. Felly rhaid i ni gael y rhif cwmni cofrestredig a chopi o'r Dystysgrif Gorffori.

Os bydd y cwmni newydd yn defnyddio'r gair 'elusen' neu 'elusennol' yn ei deitl ni fydd Tŷ'r Cwmnïau yn ei gofrestru hyd nes ei fod wedi cael ein sêl bendith. Felly byddwn yn ystyried y cais a'r memorandwm ac erthyglau gyda'i gilydd ac yn penderfynu a yw'r cwmni yn elusennol. Dyma'r unig adeg pan na ddisgwyliwn i gwmni gael rhif cwmni cofrestredig.

Dyddiad gweithredu'r ddogfen lywodraethol

Rhaid i ddogfen lywodraethol gael ei 'derbyn' yn ffurfiol gan y rhai sy'n gyfrifol am reolaeth a gweinyddiad y sefydliad. Derbynnir pob math o ddogfen lywodraethol mewn ffordd arbennig.

- Mae **cyfansoddiad** yn cael ei fabwysiadu mewn cyfarfod ffurfiol o'r bobl hynny sydd, neu a fydd, yn ymddiriedolwyr yr elusen, a'r aelodaeth gyffredinol.
- Mae **gweithred ymddiriedolaeth** yn cael ei chyflawni drwy gael ei llofnodi a'i dyddio gan yr ymddiriedolwyr ym mhresenoldeb tyst annibynnol, neu dystion annibynnol.
- Mae cwmni (gyda **memorandwm ac erthyglau cymdeithasu**) yn cael ei gorffori yn Nhŷ'r Cwmnïau ac yn cael tystysgrif gorffori.
- Mae **ewyllys** yn cael ei dilysu trwy grant profiant.
- Mae **Deddf Seneddol** yn cael ei phasio, ond gall gael ei gweithredu mewn camau.

Pan fydd cwmni wedi'i sefydlu, mae'n hollol ar wahân i'r sefydliad sy'n bod. Rhaid iddo gael ei gofrestru fel elusen newydd (oni bai ei fod wedi'i esgusodi neu ei eithrio, neu nid yw ei incwm yn ddigonol).

Os ydych yn sefydlu cwmni i gymryd lle elusen sy'n bod nad yw'n gwmni gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi ceisio cyngor priodol am hyn:

- a fyddwch yn gallu trosglwyddo asedau'r elusen anghorfforedig i'r cwmni newydd. (Os oes gwaddol parhaol gan yr elusen anghorfforedig neu os oes rhywbeth yn ei dogfen lywodraethol am yr hyn sy'n digwydd i'r asedau os yw'r elusen yn peidio â bodoli yna ni fydd trosglwyddiad i'r cwmni newydd yn bosibl yn ôl pob tebyg).
- a fydd unrhyw weithredoedd cyfamodi neu gymynroddion i'r elusen anghorfforedig yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cwmni elusennol newydd.

B2 Cwmnïau a sefydlwyd i gymryd drosodd gweithgareddau elusen sy'n bod

Dychwelyd i'r ffurflen

(a) Rhif elusen gofrestredig

Gofynnwn yma am rif elusen gofrestredig yr elusen anghorfforedig sy'n bod.

(b) Ydy geiriad y cymal amcanion yr union yr un fath â'r elusen sy'n bod?

Yn aml bydd y cwmni elusennol wedi'i sefydlu ar gyfer yr un dibenion â'r sefydliad sy'n bod. Felly bydd yr un amcanion wedi'u nodi yn ei ddogfen lywodraethol. Cymharwch gymal amcanion y sefydliad sy'n bod â'r cymal amcanion yn y memorandwm ac erthyglau cymdeithasu newydd a rhowch wybod i ni am unrhyw wahaniaeth.

Mae'n bosibl y byddwch eisiau achub ar y cyfle hwn i ysgrifennu eich amcanion mewn iaith glir, fodern neu fabwysiadu diben elusennol a gafodd ei gydnabod yn fwy diweddar yn ogystal â diweddaru eich rheolau gweinyddol.

Os yw'r amcanion yr union yr un fath ag amcanion yr elusen sy'n bod, neu'n ailddatganiad modern o amcanion yr elusen sy'n bod, fel arfer bydd cofrestru'r cwmni newydd yn ddidrafferth. (DS Os ydych yn ailddatgan eich amcanion mae'n bwysig iawn i gael y geiriad yn gywir. Gweler yr adran *Amcanion Enghreifftiol* ar ein gwefan am gyngor.)

Yn ogystal â'r amcanion byddwn hefyd yn ystyried unrhyw newidiadau i:

- gymal buddion ymddiriedolwyr os yw'n caniatáu i'r ymddiriedolwyr gael unrhyw fudd newydd;
- unrhyw bŵer sy'n caniatáu i'r ymddiriedolwyr newid y ddogfen lywodraethol;
- beth sy'n digwydd os yw'r elusen yn peidio â bodoli; a'r
- rheolau sy'n llywodraethu cynnwys y corff ymddiriedolwyr neu sy'n caniatáu i'r elusen gael llai na thri ymddiriedolwr.

Os oes newidiadau arwyddocaol i'r cymalau hyn yna mae'n debyg y bydd yn cymryd yn hwy i ni ystyried eich cais.

B3 Dogfen lywodraethol gymeradwy

Dychwelyd i'r ffurflen

Mae dogfen lywodraethol **gymeradwy** yn un sydd wedi cael ei chytuno â rhiant gorff (corff mantell cenedlaethol yn aml), Tollau a Chyllid Ei Mawrhydi (HMRC) a'r Comisiwn Elusennau fel un sy'n addas i'w chofrestru. Bydd yn cynnwys amcanion cytunedig yn ogystal â rheolau gweinyddol. Hefyd, byddwn wedi trafod gyda'r corff mantell y mathau o weithgareddau a fydd yn digwydd i hyrwyddo'r amcanion.

Os ydych yn defnyddio dogfen lywodraethol **gymeradwy**, **ac nid ydych yn ei newid**, mae'ch cais yn debygol o gael ei drin yn fwy cyflym a heb lawer o ymholiadau ychwanegol.

Fe welwch restr lawn o ddogfennau llywodraethol cymeradwy o dan yr adran *Cofrestru Elusen* ar ein gwefan.

Fe gewch gopïau o ddogfennau llywodraethol cymeradwy gan y corff noddi. **Nid** ydynt ar gael o'r Comisiwn Elusennau.

Rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau eu bod wedi cael caniatâd y corff noddi i ddefnyddio ei ddogfen lywodraethol gymeradwy. Rhaid iddynt ddilyn unrhyw ganllawiau y mae'n eu cynhyrchu ynghylch sut y bydd yr elusen yn gweithredu a'r hyn y bydd yn ei wneud.

Mae dogfennau llywodraethol cymeradwy yn cynnwys cymalau dewisol yn aml. Mae'n bwysig iawn eich bod yn eu darllen yn ofalus a sicrhau, os oes dewisiadau, eich bod chi wedi gwneud y dewis iawn, ac wedi dileu'r dewisiadau nad ydynt yn gymwys.

Weithiau bydd bylchau gwag ar y ddogfen lywodraethol i'r ymddiriedolwyr eu cwblhau. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen i chi nodi ym mha fis y cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, neu nifer yr ymddiriedolwyr. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau'r holl fylchau gwag.

Nid yw dewis rhwng cymalau dewisol a chwblhau bylchau gwag yn cael ei ystyried yn newidiadau i ddogfen lywodraethol gymeradwy.

C Asesu budd cyhoeddus y sefydliad

Dychwelyd i'r ffurflen

Amcanion

Fel arfer bydd dibenion neu 'nodau' elusen wedi'u mynegi yng 'nghymal amcanion' ei dogfen lywodraethol. Dylai'r cymal amcanion fynegi nodau'r sefydliad yn ddigonol ac yn llawn. Weithiau gall fod yn anodd geirio'r cymal amcanion yn y ffordd sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. O dan yr adran Amcanion Enghreifftiol ar ein gwefan rydym wedi nodi geiriad addas ar gyfer ystod o elusennau. Cymal amcanion sydd wedi'i eirio'n anghywir, neu gymal amcanion nad yw'n mynegi nodau'r sefydliad yn gywir, yw'r rheswm mwyaf arwyddocaol dros oedi wrth brosesu cais, neu wrthod cais. Hyd yn oed os teimlwn fod yr hyn rydych yn ei wneud yn gallu bod yn elusennol, os nad yw'r cymal amcanion wedi'i eirio'n gywir, bydd rhaid i chi newid y ddogfen lywodraethol cyn y gallwn ystyried cofrestru'r sefydliad. Gall hyn olygu galw cyfarfod o'r ymddiriedolwyr a/neu'r aelodau i gytuno ar y newid.

Yn adran hon y ffurflen nodwch yr amcanion yn union fel y cânt eu nodi yn eich dogfen lywodraethol.

Sut y mae, neu y bydd, yr amcanion yn cael eu cyflawni er budd cyhoeddus

Mae'n rhaid i ni wybod beth mae'r sefydliad yn ei wneud, neu bydd yn ei wneud, i gyflawni ei nodau er budd cyhoeddus. Gallai fod yn llawer o wahanol bethau, neu gallai fod yn rhywbeth syml, fel rhoi grant neu gyngor.

Rhowch fanylion llawn ynghylch sut y mae, neu y bydd, nodau'r elusen yn cael eu cyflawni. Ond peidiwch â chynnwys yma:

- manylion am godi arian er mwyn galluogi'r sefydliad i weithredu; neu
- bwerau sydd gan yr ymddiriedolwyr (megis i gydweithredu ag elusennau eraill).

Weithiau nid oes cysylltiad rhwng yr hyn y mae sefydliad yn cynnig ei wneud a'r amcanion a nodwyd, ond gallai gefnogi amcan gwahanol. Mewn achosion o'r fath mae'n bosibl y gallwn awgrymu amcanion newydd.

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod yr amcanion a nodwyd a'r hyn y mae'r sefydliad yn cynnig ei wneud yn cyfateb â'i gilydd.

Er mwyn i ni allu asesu a yw nodau'ch sefydliad er budd cyhoeddus, rhowch wybodaeth sy'n disgrifio sut y mae'ch sefydliad yn bodloni'r egwyddorion budd cyhoeddus a nodwyd yn yr Atodiad ar ddiwedd y canllaw hwn. Am wybodaeth bellach gweler ein cyhoeddiad *Elusennau a Budd Cyhoeddus*. Mae hwn ar gael ar ein gwefan.

Os nad yw'ch cais yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch sut y mae neu y bydd nodau'ch sefydliad yn cael eu cyflawni er budd cyhoeddus, mae'n bosibl y bydd angen i chi ofyn mwy o gwestiynau. Ond peidiwch ag anfon gwybodaeth ychwanegol atom (megis cynlluniau busnes neu lenyddiaeth hyrwyddo) ar yr adeg hon. Os teimlwn fod angen gwybodaeth ychwanegol arnom byddwn yn gofyn amdani.

Ch Budd preifat

Dychwelyd i'r ffurflen

Budd preifat

Mae **budd preifat** yn codi pan fydd unigolyn neu sefydliad yn elwa'n bersonol o'i waith gyda'r sefydliad. Mewn rhai achosion gall fod yn briodol i'r elusen ddarparu'r budd, ond nid yw felly mewn rhai achosion. Gall elusennau ddarparu buddion preifat ar yr amod bod y buddion hynny yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflawni dibenion yr elusen a/neu yn ganlyniad angenrheidiol, neu'n sgil-gynnyrch, i gyflawni'r dibenion hynny.

Mae enghreifftiau o fudd preifat sy'n cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflawni dibenion elusen yn cynnwys rhoi grant i unigolyn i leddfu eu caledi ariannol neu ddarparu addysg i rywun. Rhaid i'r budd fod yr un fath, neu'n debyg iawn i'r hyn y byddai unrhyw un sy'n gymwys i fod yn fuddiolwr yn ei dderbyn.

Mae enghreifftiau o fudd preifat sy'n ganlyniad angenrheidiol neu'n sgil-gynnyrch i gyflawni'r dibenion hynny yn cynnwys talu cyflogau rhesymol i staff elusen, neu os yw busnesau'n cael elw cyfyngedig o ganlyniad i brosiectau adfywio elusennol.

Yn gyffredinol, mae budd preifat yn ganlyniad angenrheidiol neu'n sgil-gynnyrch i gyflawni'r dibenion hynny:

- os yw'n dilyn ymlaen o ryw weithred a gyflawnir wrth hybu dibenion yr elusen; ac
- os yw'r weithred honno wedi'i chyflawni dim ond er mwyn hybu dibenion elusennol y sefydliad (yn wahanol i ddiben ar wahân, sef darparu budd preifat); ac
- os yw swm y budd yn rhesymol yn yr amgylchiadau.

Ch Budd preifat

Dychwelyd i'r ffurflen

Os yw'r ymddiriedolwyr yn penderfynu defnyddio strwythur aelodaeth er mwyn cyflawni'r dibenion elusennol, yn gyffredinol gellir ystyried y budd preifat i'r aelodau yn ganlyniad angenrheidiol, neu'n sgil-gynnyrch i gyflawni'r dibenion hynny, ar yr amod bod yr aelodaeth yn agored ac nid yw wedi'i chyfyngu'n ormodol. Fodd bynnag, fel arfer ni all sefydliad a gefnogir gan ei aelodau at ddiben darparu budd i'w hunain fod yn elusen fel arfer. Mae'n gwestiwn o raddfa; ydy'r sefydliad yn bodoli'n bennaf i gynnig mantais i'w aelodau neu ydy'r strwythur aelodaeth wedi cael ei fabwysiadu dim ond fel ffordd effeithiol o ddarparu budd elusennol, neu er mwyn gwneud y gwaith o weinyddu'r elusen yn haws?

Rhaid i ymddiriedolwyr elusen roi buddiannau'r elusen yn gyntaf bob amser. Rheol sylfaenol y gyfraith elusennau yw na all ymddiriedolwyr elusen gael budd o'u swydd o ymddiriedaeth na rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau fel ymddiriedolwyr yn gwrthdaro â'u budd eu hunain. Am fwy o wybodaeth fanwl gweler ein canllaw **Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod** (**CC3**) a **Thalu Ymddiriedolwyr Elusennau** (**CC11**). Mae'r rhain ar gael i'w llwytho i lawr ar ein gwefan neu o'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol.

Ch1 Polisi gwrthdaro buddiannau

Dychwelyd i'r ffurflen

I gael mwy o wybodaeth am wrthdaro buddiannau gweler 'Canllaw i Wrthdaro Buddiannau i Ymddiriedolwyr Elusen'. Mae ar gael ar ein gwefan neu gan y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol.

Ch2 Unigolion cysylltiedig

Dychwelyd i'r ffurflen

At ddiben y cwestiwn hwn, mae'r unigolion canlynol yn unigolion cysylltiedig:

1. Ymddiriedolwr, ei blentyn, ei lysblentyn, ei riant, ei wŷr/wyres, ei fam-gu/tad-cu, ei frawd neu ei chwaer.
2. Priod neu bartner sifil unrhyw un o'r uchod. Mae priod yn cynnwys unigolyn sy'n byw gyda rhywun arall fel gŵr neu wraig yr unigolyn hwnnw ac mae partner sifil yn cynnwys unigolyn sy'n byw gyda rhywun arall fel pe baent yn bartneriaid sifil.
3. Unigolyn sy'n rhedeg busnes mewn partneriaeth ag unrhyw un o'r unigolion a nodwyd uchod.
4. Unrhyw sefydliad sy'n cael ei reoli naill ai'n unigol neu gan ddau neu ragor o'r bobl y soniwyd amdanynt uchod. Drwy hyn golygwn y gallant sicrhau bod materion y sefydliad yn cael eu cynnal yn unol â'u dymuniadau.
5. Corfforaeth gorfforedig y mae gan unrhyw rai o'r bobl a nodwyd uchod fudd sylweddol ynddi, naill ai yn unigol neu rhwng dau unigolyn neu fwy. Drwy hyn golygwn rhywun sydd:

   (a) â chyfrannau gyda gwerth nominal o fwy nag un rhan o bump o'r cyfalaf cyfrannau; neu

   (b) yn gallu rheoli'r defnydd o fwy nag un rhan o bump o'r pŵer pleidleisio mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol.

Os yw'r ateb i gwestiwn Ch2 yn 'Ydy' rhaid i chi gwblhau adran Ch3 ar gyfer budd yr unigolyn cysylltiedig.

Ch3 Manylion budd preifat

Dychwelyd i'r ffurflen

Gallwch gopïo tudalen y ffurflen gais a chyflwyno copïau ychwanegol i ni ar gyfer pob math o fudd a/neu bob unigolyn sy'n derbyn y budd.

(b) Y berthynas rhwng yr unigolyn cysylltiedig â'r sefydliad

Gall fod yn:

- berthynas teulu; neu
- rôl megis ymddiriedolwr; neu
- ddisgrifiad megis cyfarwyddwr corfforaeth gorfforedig gyda budd rheoli.

(c) Disgrifiad o'r budd

Gall budd preifat fod ar sawl ffurf. Mae'n cynnwys:

- taliad am fod yn ymddiriedolwr;
- taliad am wasanaethau i'r sefydliad;
- cyflog;
- breindaliadau o lyfrau, tapiau neu CDau wedi'u cynhyrchu o recordiadau a wnaed gan yr unigolyn wrth ymgymryd â'u dyletswyddau;
- defnyddio tir neu gartref rhywun y mae'r sefydliad yn talu rhent amdano neu'n cyfrannu at gostau cynnal.

Ch3 Manylion budd preifat

Dychwelyd i'r ffurflen

Mae angen i ni wybod os oes hawl gan unrhyw ymddiriedolwr neu 'unigolyn cysylltiedig' (am ddiffiniad o 'unigolyn cysylltiedig' gweler y nodyn ar adran Ch2):

- derbyn incwm o'r tir neu'r adeilad ar ffurf rhent neu daliadau morgais; neu
- os yw'r sefydliad yn meddiannu tir neu adeiladau y mae'r ymddiriedolwr neu'r ymddiriedolwyr yn berchen arnynt.

Os yw'r ymddiriedolwr yn berchen ar dir a feddiannir gan sefydliad dylai telerau'r feddiannaeth gael eu nodi'n glir yn ysgrifenedig. Os yw'r sefydliad yn meddiannu eiddo'r ymddiriedolwr ei hun dylai'r biliau a'r trethi sydd i'w talu gael eu rhannu'n deg. Weithiau bydd ymddiriedolwr yn rhentu eiddo i sefydliad naill ai'n rhad ac am ddim neu am lai na chyfradd y farchnad. Bydd angen i ni wybod am hyn.

Cyn cwblhau'r datganiad bydd angen i'r ymddiriedolwyr fodloni eu hunain bod:

- unrhyw fudd preifat yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni dibenion y sefydliad; a/neu
- yn ganlyniad angenrheidiol, neu'n sgil-gynnyrch, i gyflawni'r dibenion hynny.

D Pobl agored i niwed

D1 Pobl agored i niwed

Dychwelyd i'r ffurflen

Mae'r adran hon ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n ceisio cofrestru fel elusen ac yn:

- gweithio gyda phlant; a/neu
- yn ymwneud â gofalu am oedolion agored i niwed, os yw'r ymddiriedolwyr yn gallu dod i gysylltiad ag oedolion agored i niwed o'r fath yn ystod eu dyletswyddau arferol.

Gwiriadau CRB yw'r ffordd orau ar hyn o bryd i ymddiriedolwyr wirio a yw cyd-ymddiriedolwr wedi'i anghymhwyso rhag gweithio gyda phobl agored i niwed. Am y rheswm hwn, mae polisi'r Comisiwn fel a ganlyn:

- **rhaid** i ymddiriedolwyr gael gwiriad CRB os oes gofyniad cyfreithiol i wneud hynny; a
- **dylai** ymddiriedolwyr gael gwiriad os oes hawl gyfreithiol i wneud hynny.

Mae dyletswydd gofal gan bob ymddiriedolwr elusen a dyletswydd i weithredu er lles eu helusen yn unig. Yn unol â hynny, credwn fod ymddiriedolwyr elusen mewn perygl o weithredu'n groes i'r dyletswyddau hyn os ydynt, heb reswm da, yn methu â chynnal gwiriadau CRB priodol os oes hawl ganddynt wneud hynny.

Hefyd mae nifer o droseddau penodol sy'n ymwneud ag unigolion anghymwys yn gweithredu fel ymddiriedolwyr elusen:

- mae unigolyn sydd wedi'i anghymhwyso rhag gweithio gyda phlant yn cyflawni trosedd os yw'n gwneud cais am swydd reoledig, cynnig gwneud neu'n derbyn swydd reoledig, neu wneud unrhyw waith mewn swydd reoledig. Mae hyn yn cynnwys swydd reoledig ymddiriedolwr elusen plant (Adran 35 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau'r Llys 2000);
- mae unigolyn yn euog o drosedd os yw'n cynnig swydd reoledig (gan gynnwys swydd fel ymddiriedolwr elusen plant) i unigolyn sydd wedi'i anghymhwyso rhag gweithio gyda phlant. Mae hefyd yn euog o drosedd os yw'n methu â diswyddo unigolyn o'r fath o'r swydd honno. Nid yw'n amddiffyniad i honni nad oedd ef/hi yn gwybod bod yr unigolyn wedi'i anghymhwyso (Adran 35 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau'r Llys 2000);
- mae unigolyn yr ystyrir ei fod yn anaddas i weithio gydag oedolion agored i niwed (fel y nodir trwy eu cynnwys yn rhestr Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) yn euog o drosedd os yw, o fwriad, yn gwneud cais am unrhyw waith mewn swydd gofal, yn cynnig gwneud, yn derbyn neu'n gwneud unrhyw waith mewn swydd gofal. Mae hyn yn gymwys i:
  - (a) ymddiriedolwyr elusennau sy'n darparu llety i oedolion agored i niwed mewn cartref gofal, os yw'r swydd ymddiriedolwr yn cynnig modd i'r ymddiriedolwr ddod i gysylltiad rheolaidd ag oedolion agored i niwed yn ystod ei ddyletswyddau;
  - (b) ymddiriedolwyr elusennau sy'n darparu gofal personol yn eu cartrefi eu hunain i bobl sydd oherwydd salwch, gwendid neu anabledd yn methu darparu ar gyfer eu hunain heb gymorth (Adran 89 Deddf Safonau Gofal 2000).

D1 Pobl agored i niwed

Dychwelyd i'r ffurflen

Ymddiriedolwyr sy'n dod i gysylltiad â phobl agored i niwed

Gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)

Mae'r gyfraith yn ymwneud â gwiriadau CRB yn gymhleth a gall fod yn anodd i elusennau ddeall sut y mae'n berthnasol iddyn nhw. Mae'n rhaid i bob elusen a'i hymddiriedolwyr benderfynu a oes hawl gyfreithiol ganddynt gynnal gwiriadau CRB ac mewn rhai achosion a yw'n ofynnol iddynt wneud hynny yn gyfreithiol. Pan fo'n briodol rhaid iddynt wneud cais am y gwiriadau hyn. Mae'n bwysig bod ymddiriedolwyr yn mynd ati i ystyried y cwestiynau hyn ac yn ceisio cyngor (er enghraifft gan gyfreithiwr) os nad ydynt yn glir pryd y mae gwiriadau CRB ar gael neu'n ofynnol yn gyfreithiol. Bydd hyn yn helpu ymddiriedolwyr i sicrhau eu bod yn diogelu'r bobl agored i niwed y maent yn gweithio â nhw ac nid ydynt yn torri'r gyfraith.

Hawl gyfreithiol i gynnal gwiriadau CRB ar ymddiriedolwyr

Gallai gwiriad CRB olygu datgelu data personol sensitif am unigolyn, felly mae'r gyfraith yn caniatáu'r gwiriadau hyn mewn amgylchiadau arbennig yn unig. Yr unig amser y crybwyllir y term 'ymddiriedolwr' yn benodol yn y ddeddfwriaeth ar wiriadau CRB yw mewn perthynas ag ymddiriedolwyr elusennau plant. Fodd bynnag, gall fod hawl gan ymddiriedolwyr eraill gynnal gwiriad CRB oherwydd bod eu swyddi yn golygu eu bod yn dod i gysylltiad â phobl agored i niwed. Er hwylustod defnyddiwyd y term 'ymddiriedolwr' wrth bennu hawliau o'r fath trwy'r ddogfen hon hyd yn oed os nad yw'r gyfraith yn cyfeirio'n benodol at ymddiriedolwyr. Mae'r gyfraith yn caniatáu gwiriadau CRB yn yr amgylchiadau canlynol:

(i) ar gyfer elusennau sy'n gweithio gyda'r rhai dan 18 oed, mae hawl gwirio'r swyddi canlynol:

- pob ymddiriedolwr mewn 'elusennau plant'; ac
- ymddiriedolwyr elusennau sy'n gweithio mewn sefydliad addysg bellach, ond dim ond pan fydd dyletswyddau arferol swydd ymddiriedolwr yn cynnwys dod i gysylltiad rheolaidd â rhai dan 18 oed.

(ii) pan fydd sefydliad yn ymwneud â:

- darparu gwasanaethau gofal i oedolion agored i newid; neu
- gynrychioli, neu wasanaethau eiriolaeth, i oedolion agored i niwed gan wasanaeth sydd wedi cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Ddeddf Seneddol berthnasol;

mae hawl gan bob ymddiriedolwr a all ddod i gysylltiad ag oedolion agored i newid sy'n derbyn y gwasanaethau hyn gael eu gwirio.

Gofynion cyfreithiol penodol i gynnal gwiriadau CRB ar gyfer ymddiriedolwyr

Mae rhai gofynion cyfreithiol penodol yn golygu bod rhaid cynnal gwiriadau CRB ar gyfer rhai elusennau a swyddi ymddiriedolwyr penodol. Yn gryno mae'r rhain yn gymwys i'r swyddi canlynol:

- llywodraethwyr ysgolion annibynnol - mae Rheoliadau Addysg (Safonau Ysgolion Annibynnol)(Lloegr) 2003 yn dweud er mwyn bodloni safonau cenedlaethol lleiaf mae'n rhaid i ysgolion annibynnol gynnal gwiriadau CRB ar eu perchnogion, sef yr ymddiriedolwyr yn achos ysgolion annibynnol elusennol;
- ymddiriedolwyr elusennau sy'n 'sefydliadau gofal plant' - o dan Ddeddf Amddiffyn Plant 1999, mae'n orfodol i wirio'r ymddiriedolwyr hyn yn erbyn y rhestr Deddf Amddiffyn Plant. Mae hyn yn bosibl trwy wiriad CRB yn unig;
- ymddiriedolwyr elusennau sy'n gweithio gydag oedolion agored i niwed sy'n gweithio mewn swydd gofal – o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 rhaid i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau gofal i oedolion agored i niwed gynnal gwiriad rhestr Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed cyn penodi unrhyw un i swydd gofal. Gall ymddiriedolwyr elusen rhai elusennau sy'n gweithio gydag oedolion agored i niwed gael eu cynnwys o fewn y diffiniad o 'swydd gofal' (gweler yr adran Diffiniadau isod).

I gael gwybodaeth bellach am wiriadau CRB a ffyrdd eraill o wirio cymhwyster ymddiriedolwyr gweler **Cael hyd i ymddiriedolwyr newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau wybod** (**CC30**). Mae hwn ar gael ar ein gwefan.

D2 Gweithio gyda phlant - Diffiniadau

Dychwelyd i'r ffurflen

Elusen plant

Diffinnir y term elusen plant yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau'r Llys 2000. Mae'n elusen gyda gweithwyr sydd fel rheol yn cynnwys unigolion sy'n gweithio mewn swyddi rheoledig. Diffinnir y term 'swydd reoledig' yn y Ddeddf honno hefyd, ac mae'n un sy'n cynnwys gweithio gyda phlant. Mae unigolyn yn weithiwr mewn elusen os ydynt yn gweithio o dan drefniadau a wnaed gan yr elusen. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unrhyw drefniadau sy'n cael eu gwneud at ddibenion sy'n atodol yn unig i'r dibenion y cafodd yr elusen eu sefydlu ar eu cyfer.

Swydd reoledig

(a) swydd y mae ei dyletswyddau arferol yn cynnwys gwaith mewn sefydliad a restrir isod:

(i) sefydliad ar gyfer cadw plant yn unig neu'n bennaf,

(ii) ysbyty ar gyfer derbyn a thrin plant yn unig neu'n bennaf,

(iii) cartref gofal, cartref gofal preswyl, cartref nyrsio neu ysbyty preifat ar gyfer plant yn unig neu'n bennaf,

(iv) sefydliad addysgol,

(v) cartref plant neu gartref gwirfoddol,

(vi) cartref a ddarparwyd o dan adran 82(5) Deddf Plant 1989, is-adran (2),

(b) swydd lle mae'r dyletswyddau arferol yn cynnwys gweithio mewn adeilad gofal dydd,

(c) swydd lle mae'r dyletswyddau arferol yn cynnwys gofalu am blant, hyfforddi, goruchwylio neu fod yn llwyr gyfrifol am blant,

(ch) swydd lle mae'r dyletswyddau arferol yn cynnwys cael cysylltiad nas arolygir â phlant o dan drefniadau a wnaed gan unigolyn cyfrifol,

(d) swydd lle mae'r dyletswyddau arferol yn cynnwys gofalu am blant dan 16 oed yn ystod cyflogaeth y plentyn,

(dd) swydd lle mae rhan sylweddol o'r dyletswyddau arferol yn cynnwys goruchwylio neu hyfforddi plant dan 16 oed yn ystod cyflogaeth y plentyn,

(e) un o'r swyddi canlynol:

(i) aelod o gorff llywodraethu sefydliad addysgol,

(ii) aelod o gorff llywodraeth leol perthnasol,

(iii) cyfarwyddwr gwasanaethau plant a chyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol oedolion awdurdod lleol yn Lloegr,

(iv) cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol [yng Nghymru],

(v) prif swyddog addysg awdurdod addysg lleol [yng Nghymru],

(vi) ymddiriedolwr elusen plant,

(vii) aelod o Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr,

(viii) Comisiynydd Plant a dirprwy Gomisiynydd Plant wedi'i benodi o dan Ran 1 Deddf Plant 2004,

(ix) Comisiynydd Plant Cymru neu ddirprwy Gomisiynydd Plant Cymru,

(x) aelod, neu brif weithredwr, Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd,

(f) swydd lle mae'r dyletswyddau arferol yn cynnwys goruchwylio neu reoli unigolyn yn ei waith mewn swydd reoledig.

Sefydliad gofal plant

Fe'i diffinnir gan Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 fel sefydliad "...sy'n ymwneud â darparu llety, gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau gofal iechyd i blant, neu orchwylio plant" ac mae "eu gweithgareddau yn cael eu rheoleiddio gan neu drwy rinwedd, unrhyw ddeddfiad penodedig; ac sy'n bodloni amodau eraill a all gael eu pennu".

Deddfiadau penodedig

Y canlynol yw'r deddfiadau penodedig sy'n ymwneud â 'sefydliadau gofal plant'

(a) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970, adrannau 2 a 7A i 7D;

(b) Deddf Mabwysiadu 1976, adran 9;

(c) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, adrannau 8 ac 15 i 18A, Atodlen 5 ac Atodlen 5A;

(ch) Deddf Cartrefi Cofrestredig 1984 adrannau 16 a 26;

(d) Deddf Plant 1989, adrannau 72 a 73, paragraff 4 Atodlen 4, paragraff 7 Atodlen 5 a pharagraff 10 Atodlen 6;

(dd) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990, adran 5 ac Atodlen 2;

(e) Deddf Cyfiawnder Troseddol 1991, adrannau 84 i 88A;

(f) Deddf Gwasanaeth Prawf 1993, adran 25; a

(ff) Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, adrannau 7 i 15.

Swydd gofal plant

Fe'i diffinnir yn fras gan Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 fel swydd reoledig at ddibenion Rhan II Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau'r Llys 2000 - gan gynnwys swydd reoledig mewn ysgol sy'n gartref plant at ddibenion Deddf Safonau Gofal 2000. Ond nid yw'n swydd sy'n cynnwys gwaith y mae adran 142 Deddf Addysg 2002 yn gymwys iddo; felly, nid yw 'swydd gofal plant' yn cynnwys y rhan fwyaf o'r gwaith addysg mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach.

Swydd gofal

Mae 'swydd gofal', mewn perthynas ag unigolyn, yn golygu:

- swydd sy'n galluogi deiliad y swydd i gael cysylltiad rheolaidd yn ystod ei ddyletswyddau gydag oedolion y mae llety'n cael ei ddarparu ar ei gyfer mewn cartref gofal;
- swydd sy'n ymwneud â darparu gofal personol yn eu cartrefi eu hunain i bersonau sydd oherwydd salwch, gwendid neu anabledd yn methu darparu ar gyfer eu hunain heb gymorth. (Adran 80 Deddf Safonau Gofal 2000).

D3 Oedolion agored i niwed - Diffiniadau

Ystyr pobl agored i niwed yw plant ac oedolion agored i niwed. Mae 'plant' yn golygu pobl dan 18 oed. Mae tri gwahanol ddiffiniad o 'oedolion agored i niwed' yn dibynnu ar ba fath o wiriad sy'n cael ei gynnal, fel y disgrifir yn y manylion isod:

1. Diffiniad o 'oedolyn agored i niwed' ar gyfer gwiriad CRB safonol

Ystyr 'oedolyn agored i niwed' yw unigolyn 18 oed neu'n hŷn sydd â;

1) anabledd dysgu neu gorfforol sylweddol; neu

2) salwch corfforol neu feddyliol neu anhwylder meddyliol, cronig neu fel arall, gan gynnwys bod yn gaeth i alcohol neu gyffuriau; neu

3) lleihad sylweddol mewn gallu corfforol neu feddyliol.

2. Diffiniad o 'oedolyn agored i niwed' ar gyfer gwiriad CRB manylach

Mae 'oedolyn agored i niwed' at ddiben gwiriad CRB manylach yn golygu unigolyn 18 oed neu'n hŷn sy'n bodloni pob un o'r tri gofyniad canlynol:

1) Maent yn derbyn un neu ragor o'r gwasanaethau canlynol:

   (a) llety a gofal nyrsio neu bersonol mewn cartref gofal;

   (b) gofal personol neu nyrsio neu gymorth i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain;

   (c) unrhyw wasanaethau a ddarperir gan ysbyty annibynnol, clinig annibynnol, asiantaeth feddygol annibynnol neu gorff Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

   (ch) gwasanaethau gofal cymdeithasol;

   (d) unrhyw wasanaethau a ddarperir mewn sefydliad sy'n darparu ar gyfer unigolyn sydd ag anawsterau dysgu.

2) Maent yn dioddef:

   (a) anabledd dysgu neu gorfforol; neu

   (b) salwch corfforol neu feddyliol, cronig neu fel arall, gan gynnwys bod yn gaeth i alcohol neu gyffuriau; neu

   (c) lleihad mewn gallu corfforol neu feddyliol.

3) O ganlyniad i'r cyflwr yn (2), mae un o'r anableddau canlynol ganddynt:

(a) bod yn ddibynnol ar eraill i berfformio, neu angen cymorth i berfformio swyddogaethau corfforol sylfaenol;

(b) nam difrifol o ran gallu cyfathrebu ag eraill;

(c) nam yn y gallu i amddiffyn eu hunain rhag ymosodiad, camdriniaeth neu esgeulustod.

3. Diffiniad o 'oedolyn agored i niwed' yn y diffiniad o 'swydd gofal' ar gyfer chwilio rhestr Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA)

Nid yw'r diffiniad o 'swydd gofal' yn defnyddio'r term 'oedolyn agored i niwed'. Fodd bynnag, defnyddir 'oedolyn agored i niwed' yn rhan o Ddeddf Safonau Gofal 2000 o dan y pennawd 'Amddiffyn Plant ac Oedolion Agored i Niwed'. Diffinnir 'oedolyn agored i niwed' yma fel:

1) oedolyn y mae llety a gofal nyrsio neu bersonol yn cael ei ddarparu ar ei gyfer mewn cartref gofal; neu

2) oedolyn y mae gofal personol yn cael ei ddarparu ar ei gyfer yn ei gartref ei hun dan drefniadau gydag asiantaeth gofal cartref; neu

3) oedolyn y mae gwasanaethau penodedig wedi'u darparu ar ei gyfer gan ysbyty annibynnol, clinig annibynnol, asiantaeth feddygol annibynnol neu gorff Gwasanaeth Iechyd Gwladol; neu

4) oedolyn y mae cymorth, gofal neu lety yn cael ei ddarparu ar ei gyfer gan unigolyn (heb fod yn berthynas yr oedolyn hwnnw) o dan gytundeb rhwng yr unigolyn hwnnw a rhywun o fewn is-adran 7(d) adran 80(6).

(Mae is-adran (7)(d) yn cyfeirio at "unrhyw unigolyn sy'n darparu cynllun lle mae rhywun yn cytuno â'r unigolyn hwnnw i ddarparu cymorth, gofal neu lety i oedolyn sydd ei angen.")

Dd Amgylchiadau arbennig

Dychwelyd i'r ffurflen

Mae'r canlynol yn amgylchiadau arbennig yr hoffem i chi eu dwyn at ein sylw:

- mae angen rhif elusen gofrestredig arnoch erbyn dyddiad penodol, megis dyddiad lansio'r sefydliad yn gyhoeddus, neu mewn perthynas â chyllido arfaethedig;
- mae pwrpas y sefydliad yn newydd sbon neu'n arloesol neu gall ddenu sylwadau neu feirniadaeth;
- gall fod ddiddordeb mawr yn y cyfryngau, yn wleidyddol, neu ddiddordeb arall;
- mae gan y sefydliad gysylltiadau â mentrau'r llywodraeth ganol neu leol a/neu wedi'i gyllido ganddynt; neu
- mae gan y sefydliad gysylltiadau ag un neu ragor o brif sefydliadau a/neu mae'n cael, neu bydd yn cael ei gyllido ganddynt.

Ffurflen datganiad ymddiriedolwyr

Dychwelyd i'r ffurflen

1. I gael manylion am ein gofynion o ran cyfarwyddwyr sefydliad sy'n ymddiriedolwr corfforedig gweler y nodiadau yn adran A5;
2. I gael diffiniad o 'weithio gyda phlant' gweler y nodiadau yn adran D2.

Anfon eich cais atom

Dychwelyd i'r ffurflen

Pan fyddwch wedi cwblhau eich cais, anfonwch y canlynol i'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol, Blwch SP 1227 Lerpwl L69 3UG:

- y ffurflen gais wedi'i chwblhau;
- y ffurflen datganiad ymddiriedolwyr wedi'i chwblhau a'i harwyddo gan BOB UN o'r ymddiriedolwyr;
- copi o fersiwn cyfredol y ddogfen lywodraethol;
  - os ydych wedi defnyddio dogfen lywodraethol gymeradwy neu enghreifftiol ac rydych wedi gwneud UNRHYW newidiadau iddi tynnwch sylw at y newidiadau;
  - os yw'r sefydliad yn gwmni anfonwch gopi o'r Dystysgrif Gorffori hefyd (oni bai nad oes modd i chi gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau hyd nes ein bod yn caniatáu i chi ddefnyddio'r gair elusen neu elusennol yn enw'r cwmni);
  - os yw'r ddogfen lywodraethol yn weithred ymddiriedolaeth AC nid yw'r ymddiriedolwyr am i'w cyfeiriadau ymddangos ar y copi o'r weithred ymddiriedolaeth ar ein gwefan, gallwch anfon un copi o'r weithred ymddiriedolaeth gyflawn atom ac un copi gyda chyfeiriadau'r ymddiriedolwyr wedi'u cuddio;
- tystiolaeth o incwm. Gweler y canllawiau yn adran A8(a).

Anfon eich cais atom

Dychwelyd i'r ffurflen

PEIDIWCH AG AMGÁU UNRHYW WYBODAETH NEU BAPURAU ERAILL GYDA'R FFURFLEN GAIS. Os oes angen unrhyw beth arall arnom byddwn yn gofyn amdano wrth brosesu'r cais i gofrestru.

Ar gyfer pob ymholiad arall cysylltwch â ni yn:

Y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG

Ffôn: 0845 300 0218
0845 300 0197 (cyngor Gwasanaethau Ar-lein)

Typetalk: 0845 300 0219

E-bost: enquiries@charitycommission.gsi.gov.uk

Gwefan: www.charitycommission.gov.uk

Atodiad

Dychwelyd i'r ffurflen

Budd cyhoeddus

O dan Ddeddf Elusennau 2006, rhaid i bob sefydliad a ffurfiwyd ar gyfer un neu ragor o nodau elusennol allu dangos bod ei nodau er budd y cyhoedd er mwyn iddo gael ei gydnabod, a'i gofrestru, fel elusen yng Nghymru a Lloegr. Gelwir hyn y 'gofyniad budd cyhoeddus'.

Mae dwy egwyddor allweddol ac mae'n rhaid bodloni'r ddwy egwyddor er mwyn dangos bod nodau sefydliad er budd y cyhoedd. O fewn pob egwyddor mae rhai ffactorau pwysig y mae'n rhaid eu hystyried ym mhob achos. Y pedair egwyddor yw:

Egwyddor 1: Rhaid bod budd neu fuddion adnabyddadwy

1a Rhaid bod yn glir beth yw'r buddion

1b Rhaid i'r buddion fod yn gysylltiedig â'r nodau

1c Rhaid pwyso a mesur buddion yn erbyn unrhyw anfantais neu niwed

Egwyddor 2: Rhaid darparu budd i'r cyhoedd, neu ran o'r cyhoedd

2a Rhaid i'r buddiolwyr fod yn briodol i'r amcanion

2b Os cynigir budd i garfan o'r cyhoedd, rhaid i'r cyfle i gael budd beidio â chael ei gyfyngu'n afresymol:

- gan gyfyngiadau daearyddol neu gyfyngiadau eraill neu
- gan allu i dalu unrhyw ffioedd a godir

2c Ni ellir eithrio pobl sy'n byw mewn tlodi o'r cyfle i gael budd

2d Rhaid i unrhyw fuddion preifat fod yn atodol

Cwestiynau i helpu asesu budd cyhoeddus

Er mwyn i ni all asesu a yw nodau eich sefydliad er budd y cyhoedd, bydd rhaid i chi ddarparu gwybodaeth o dan ran C y Ffurflen Gais. Wrth ddarparu'r wybodaeth honno, efallai y bydd yn ddefnyddiol i ateb y cwestiynau canlynol:

1. Pa fuddion sy'n deillio o amcanion eich sefydliad?
2. Oes unrhyw anfantais neu niwed a allai, yn eich barn chi, godi drwy gyflawni amcanion eich sefydliad? Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw farn gyffredin ymysg eraill y gallai anfantais neu niwed o'r fath godi?
3. Pwy mae amcanion eich sefydliad yn bwriadu cynnig budd iddynt?
4. Os yw'r budd i ran o'r cyhoedd, sut mae'r buddiolwyr yn cael eu diffinio neu ba gyfyngiadau sydd ar bwy all gael y cyfle i gael budd?
5. Ydy unrhyw un yn derbyn unrhyw fuddion preifat o'ch sefydliad, heblaw fel buddiolwr? Os ydynt, pa fuddion ydyn nhw'n eu cael? Ydy'r buddion hynny yn atodol?

Croeso i'r ffurflen Cais i Gofrestru CC5

Gall elusennau ddefnyddio'r ffurflen hon i gwblhau a chyflwyno eu ffurflen gais ar gyfer cofrestru elusen yn electronig yn hytrach na defnyddio ein ffurflen gais bapur. Mae'n cynnig dull cyflym a hawdd o anfon y cais i gofrestru a'r ddogfen lywodraethol i'r Comisiwn. Ar hyn o bryd mae angen copi caled arnom o'r ffurflen ymddiriedolwyr. Mae'r system sy'n hawdd ei defnyddio yn cynnig arweiniad ar-lein i chi ar sut i gwblhau'r ffurflen, ac yn cynnig modd i chi ei chadw ar eich cyfrifiadur i'w chwblhau unrhyw bryd.

Cynghorion ar sut i gael y mwyaf o'r ffurflen hon:

Meysydd Gorfodol:
Mae'r ffurflen hon yn cynnwys nifer o feysydd y mae'n rhaid eu cwblhau cyn eich bod yn anfon eich cais atom. Gallwch weld y meysydd gorfodol trwy glicio ar y botwm "Amlygu Meysydd" ar y brig i'r dde ar Adobe Reader.

Dogfennau Llywodraethol:
Gallwch ychwanegu atodiadau electronig i'r ffurflen, ee eich dogfen lywodraethol, i ategu eich Cais i Gofrestru. Cliciwch ar yr eicon Clip Papur ar y gwaelod i'r chwith ar Adobe Reader.

Datganiad Ymddiriedolwyr:
Mae'r Comisiwn Elusennau yn mynnu bod llofnodwyr Datganiad Ymddiriedolwyr yn ei gyflwyno ar bapur. Mae'r ffurflen electronig hon yn cynhyrchu'r daflen lofnodi yn awtomatig ar gyfer yr wybodaeth a rowch yn adran A5. Gallwch argraffu'r adran Datganiad Ymddiriedolwyr wedi'u llenwi ymlaen llaw ar wahân i'r ffurflen a'r canllawiau.

Peidiwch â dangos wrth agor y ffurflen

© Hawlfraint y Goron 2010